



Dinas a Sir Abertawe

**Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu –
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**

Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe

Dydd Mercher, 13 Rhagfyr 2017 am 10.00 am

Yn Bresennol: Y Cyngorydd M H Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Y Cyngorydd(wyr)
P M Black
P R Hood-Williams

Y Cyngorydd(wyr)
T J Hennegan

Y Cyngorydd(wyr)
C A Holley

**Aelodau
Cyfetholedig(wyr)**
Martyn Waygood

Mynychwyr eraill

Swyddog(ion)
Penny Gruffydd
Bethan Hopkins

Swyddog Polisiâu Cynaliadwyedd
Swyddog Craffu

Ymddiheuriadau am absenoldeb
Y Cyngorydd(wy): J W Jones a/ac M Sykes
Aelodau Cyfetholedig(wyr): Cherrie Bija
Mynychwyr eraill:

1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Dim

2 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Dim

3 Nodiadau, Llythyr y Cynullydd ac Ymateb

Cymeradwywyd

4 Ymgynghoriad ar y Cynllun Lles drafft

- Cyhoeddwyd y cynllun lles drafft ar gyfer ymgynghoriad ar 21 Tachwedd 2017.

- Cynhaliwyd gweithdai ym mis Mehefin a mis Gorffennaf a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid a grwpiau cymunedol gwahanol.
- Datblygwyd 10 thema yn gychwynnol, a'r canlyniad oedd 4 amcan drafft.
- Dwy thema a ddiystyrwyd oedd tai a'r Fargen Ddinesig. Er eu bod yn hanfodol i'r nodau lles, y teimlad oedd bydd y meysydd hyn yn cynnig llai o gyfle ar gyfer gweithredu ar y cyd. Ystyriwyd tai fel thema a fyddai'n cael ei hadlewyrchu yn yr amcanion eraill ac sydd â deddfwriaeth sylweddol a fydd yn gofyn am gamau gweithredu gan sefydliadau unigol penodol. Mae gan y Fargen Ddinesig raglen gyflawni glir a strwythur llywodraethu.
- Roedd gofyniad statudol 14 wythnos gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol rhwng mis Mehefin a mis Hydref ac ystyriwyd yr adborth o hyn.
- Nid oes gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus grŵp cynnwys ac felly gofynnwyd i'r partneriaid sydd ynghlwm gynnwys eu defnyddwyr gwasanaeth/y cyhoedd drwy eu dulliau presennol i gasglu adborth.
- Bydd yr wybodaeth hon yn dod yn ôl am ddadansoddiad ar ôl 14 Chwefror a chaiff y cynllun terfynol ei gymeradwyo gan y 4 aelod craidd a'r bartneriaeth cyn iddo gael ei gyhoeddi.
- Datblygir proses ar hyn o bryd i ymateb i'r sylwadau a fydd yn cael eu hadrodd yn ôl, ac i ymdrin â hwy.
- Dywedodd y panel fod y penderfyniad i gael gwared ar dai fel amcan yn peri dryswch. Mae tai yn bwnc sy'n gyffredin yn yr holl themâu ac mae stoc y cyngor yn rhan fach yn unig. Mae camau gweithredu ar y cyd mewn perthynas â holl feysydd tai, gan gynnwys rhentu preifat, addaswydd llety, amgylcheddau tai, etc.
- Cafwyd sylwadau am y ffaith nad oes llawer o sôn am gamau gweithredu yn y cynllun drafft - neb yn cymryd cyfrifoldeb dros y gweithgareddau.
- Mae angen cysylltu gwelliannau o ran ansawdd aer â'r prosesau cynllunio, isadeiledd ac argaeledd cludiant cyhoeddus addas.
- Datblygir 'sut', h.y. y cynllun gweithredu, fel rhan o'r cyfnod ymgynghori. Bydd angen datblygu cynllun gweithredu manwl ar ôl i'r cynllun lles gael ei gyhoeddi, gan amlinellu sut cyflawnir y camau gweithredu yn ogystal â rôl a chyfrifoldeb pob aelod o'r bartneriaeth wrth gyflawni'r amcanion.
- Dylid crybwyll camau gweithredu yn y gymuned yn fwy yn ogystal ag annog cymdogion i ddod i adnabod ei gilydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned er mwyn atal unigrwydd.
- Mae angen i bob sefydliad gyfranogi yn y broses ymgynghori mewn perthynas â'r cynllun lles drafft. Mae angen iddynt ddsbarthu'r papur a chasglu adborth, ond nid oes adnoddau i sicrhau bod hyn yn digwydd.
- Unwaith y datblygir y cynllun gweithredu o ganlyniad i'r broses ymgynghori, mae angen rhoi mesurau a phrosesau monitro ar waith i sicrhau bod y camau gweithredu'n mynd rhagddynt ac yn cyflawni canlyniadau o safon.

5 Cynllun Gwaith 2017 - 2018.

- Tynnir canol y ddinas o'r cyfarfod ar 14 Chwefror 2018 oherwydd bod paneli eraill yn ei ystyried.

Minutes of the Panel Perfformiad Craffu – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Dydd Mercher,
13 Rhagfyr 2017)
Cont'd

- Bydd yr adolygiad o'r cynllun lles drafft terfynol yn dod gerbron y panel ar gyfer craffu ym mis Ebrill 2018.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.55 am

Cadeirydd